



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambwr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 19EG MEDI, 2019** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 17 MEDI 2019, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 15 Awst 2019.

5 - 12

ARGYMHELLION I'W CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU

5. CAIS: 17/0559

Cais Adran 73 sy'n ceisio amrywio Amod 2 a osodir ar ganiatâd cynllunio amlinellol 11/1330/13 (Datblygu canol tref newydd yn cynnwys: siop fwyd 10,801 metr sgwâr (Dosbarth A1); gorsaf betrol 8 pwmp; gofod llawr manwerthu 35,522 metr sgwâr (Dosbarth A1), gofod caffi 600 metr sgwâr (Dosbarth A1), gofod gwasanaeth ariannol / proffesiynol 1,000 metr sgwâr (Dosbarth A2); gofod bwyd a diod 2,390 metr sgwâr (Dosbarth A3); 1,400 metr sgwâr o ofod swyddfa (Dosbarth B1), gofod Dosbarth D1 750 metr sgwâr; sinema 8 sgrin; gwesty 80 gwely; 64 annedd (Dosbarth C2 / C3), maes parcio aml-lawr ac ar lefel y stryd; seilwaith mynediad cysylltiedig, ail-broffilio tir, tirlunio a gwaith i liniaru llifogydd) i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer cyflwyno materion a gadwyd yn ôl a dechrau datblygu, tir ger Heol y Bont-faen a'r A473, Tonysguboriau.

13 - 66

6. CAIS: 17/1384

Datblygiad preswyl arfaethedig, parcio, mynediad gwell i'r briffordd, draenio, tirlunio a lliniaru ecolegol (derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig ar 23/02/18. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig pellach a manylion ychwanegol ar 5 Rhagfyr 2018), tir ger Heol Coldra, Blaenrhondda.

67 - 82

7. CAIS: 18/1090

Adeiladu 20 o unedau diwydiannol i fusnesau newydd ac unedau diwydiannol/swyddfa hybrid sy'n ymgorffori defnydd B1 (Busnes), B2 (Diwydiannol Cyffredinol) a B8 (Storio a Dosbarthu) (Gwybodaeth ychwanegol wedi'i derbyn 15/07/2019), tir yn Stryd Wellington, Tresalem, Aberdâr.

83 - 124

8. CAIS: 18/1394

Dymchwel y siop bresennol ac adeiladu siop newydd, gofod ar gyfer manwerthu cymysg a siop fwyd, ynghyd â threfniadau mynediad cysylltiedig, maes parcio a chyfleusterau eraill. (Derbyniwyd yr Asesiad Risg Glofaol ar 14 Ionawr 2019), J H Leeke and Sons Cyf, Heol y Bont-faen, Tonysguboriau, Pont-y-clun.

125 - 154

9. CAIS: 18/1423

Datblygiad Preswyl o 76 o Anheddau ynghyd â Gwaith Cysylltiedig (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 17/05/19), The Meadows, Coed-elái, Tonyrefail.

155 - 182

10. CAIS: 19/0615

Adeiladu garej y mae modd ei chloi a storfa ategol i'r siop garped, 15 Ffordd Llantrisant, Pont-y-clun.

183 - 190

11. CAIS: 19/0748

Tynnu/amrywio amod 4, amser (cais cynllunio blaenorol 19/0071/10), hen safle Crabtree and Evelyn Overseas Cyf, Heol y Bont-faen, Tonysguboriau, Pont-y-clun.

191 - 198

12. CAIS: 19/0831

Ymestyn amod amser 1 caniatâd cynllunio 13/0856/15, tir y tu ôl i Trewaun, Hirwaun, Aberdâr.

199 - 210

**ARGYMHELLION I'W GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION
FFYNIANT A DATBLYGU**

13. CAIS: 18/1212

Newid defnydd ac addasiadau allanol a mewnol i ddarparu 10 uned breswyl gan gynnwys mynediad, maes parcio ac ardal amwynder (cynllun mynediad diwygiedig a chynllun o'r safle wedi'i dderbyn), Scotts Hotel, Ffordd Llantrisant, Llanilltud Faerdref, Pontypridd.

211 - 224

14. CAIS: 19/0796

Annedd 4 ystafell wely arfaethedig (Ail-gyflwyno cais 19/0194/13), tir ger Tŷ Coch, Ffordd Graig-Yr-Helfa, Pontypridd.

225 - 232

ARCHWILIAD O'R SAFLE

15. CAIS: 19/0329/10

Newid defnydd arfaethedig o gartref preswyl i gartref gofal plant. Archgrove, Heol y Ficerdy, Pen-y-graig.

233 - 256

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

16. CAIS: 18/1385/10

Tynnu Garth House i lawr ac adeiladu 23 eiddo preswyl fforddiadwy a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig a'r disgrifiad 25/02/19). Garth House, Leon Avenue, Taffs Well, Caerdydd, CF15 7RG.

257 - 286

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

17. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 23/08/2019 - 5/9/2019:

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd;
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau;
Trosolwg o Achosion Gorfodi; a
Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

287 - 300

18. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees ac Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd R Yeo ac Y Cynghorydd D Williams

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol